CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 11/10/2021 am 7pm YNG NGHANOLFAN YR HENOED / MINUTES OF MEETING HELD ON 11/10/2021 at 7pm AT THE PENSIONERS' HALL

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs E Jones, Is-gadeirydd Mrs S Jones, Mrs C Parry, Mrs C Summers, Cynghorydd Bob Parry	**PRESENT:** Chairman Mrs E Jones, Vice- chairman Mrs S Jones, Mrs C Parry, Mrs C Summers, Councillor Bob Parry
1. Croeso ac ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriad am eu habsenoldeb oddi wrth Ms M E Evans a Mrs A E Williams. Talwyd cydymdeimlad a Ms M E Evans a Mrs C Parry ar eu profedigaeth ddiweddar. Ms Evans wedi colli ei mham, ac yn fodryb i Mrs Parry. Dymunwyd yn dda i Mr a Mrs B Parry yn eu cartref newydd.	**1. Welcome and apologies.** Apologies for their absence were received from Ms M E Evans and Mrs A E Williams. Condolences extended to Ms M E Evans and Mrs C Parry on their recent bereavement. Ms Evans had lost her mother, and an aunt to Mrs Parry. Good wishes were extended to Mr & Mrs B Parry in their new home.
2. Datganiadau Diddordeb.	**2. Declarations of Interest.**
.Dim.	None.
3. Cadarnhau cofnodion 6/9/2021	**3. Ratify minutes 6/9/2021**
Derbyniwyd a chadarnhawyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6/9/2021.	The minutes of the meeting held on 6/9/2021 were ratified and accepted as true minutes of the meeting
4. Materion yn codi:	**4. Matters arising:**
(i) Llwybr cyhoeddus Pendref - Carreg Bran. Mrs Jones wedi trefnu i Mr Parry wneud y gwaith o dorri'r gordyfiant. Ymateb o'r Cyngor Sir ynglŷn â'r canllaw ar y gamfa. Byddant yn ymweld â'r llwybr maes o law. Ynglŷn â'r rwbel ar y llwybr - y Cyngor Sir am ysgrifennu at y perchnogion yn gofyn iddynt ei glirio.	**(i) Pendref – Carreg Bran Public footpath.** Mrs Jones has arranged for Mr Parry to cut the overgrowth.. Reply received from the County Council regarding the handrail on the stile by Carregbran. They will visit the footpath in due course. Regarding the rubble on the footpath – the County Council stated that they would be writing to the owners, asking them to clear the rubble..
(ii) Llwybr tu cefn i Llys y Ddraig.. Derbyniwyd ateb oddi wrth Mr Parry yn mynegi nad oedd yn fodlon ymgymryd â'r gwaith o dorri'r llwybr o Llys y Graig at ffynnon Bragdy. Penderfynwyd anfon copi at Adran Briffyrdd y Cyngor Sir yn eu cynghori na fyddai'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gynnal a chadw'r llwybr uchod o hyn ymlaen.	**(ii) Footpath behind Llys y Ddraig.** Letter received from Mr Parry stating that he is unwilling to take on the work of maintaining the footpath from Llys y Ddraig to Bragdy well. It was decided to inform the Highways Dept. of the County Council and to advise them that the Community Council would no longer be responsible for maintaining the above footpath.
(iii) Newid enw tai. Mrs Sharon Jones wedi derbyn llythyr oddi wrth	**(iii) Changing house names.** Mrs Sharon Jones had received a letter from

berchennog 2 Lowgate yn mynegi nad oedd yn bwriadu newid yr enw. Er hwylustod i'w gwesteion a'i hymwelwyr yn unig y bydd yn defnyddio Hope Cottage.	the owner of 2 Lowgate stating that she has on intention of changing the name. Hope House is being used solely for the convenience of the guests and visitors.
(iv) Defib. Y Clerc wedi gwneud cais am defib. ac wedi cael amcangyfrif o'r gost - £1448.40 yn cynnwys cost postio a TAW. Y Clerc wedi derbyn caniatâd pwyllgor Neuadd yr Henoed i osod y defib. ar wal y Neuadd. Penderfynwyd y bydd y Cyngor Cymuned yn rhoi cyfraniad at gost trydan y Neuadd. Gofynnwyd i'r Clerc fynd ymlaen i brynu'r offer ac i drefnu trydanwr i'w osod yn ei le.	**(iv) Defib.** The Clerk had made an application for a defib. and had received an estimate of the cost - £1448.20 including p&p and VAT. The Clerk had received permission from the Pensioners' Hall committee to place the defib on the wall outside the Hall. It was decided that the Community Council would give the Pensioners' Hall committee a contribution towards electricity. The Clerk was requested to proceed to order the defib and to arrange for an electrician to erect it..
(v) Cais am balmant o'r Tyrpeg at Treflyn. Cais wedi'i anfon at y Cyngor Sir - dim ymateb hyd yma. Dywedodd y Cynghorydd Bob Parry ei fod wedi cael gwybod nad oedd gan y Cyngor Sir arian i osod palmant ar hyn o bryd.	**(v) Pavement from Tollgate to Treflyn.** Application sent to the County Council – no response to date. Councillor Bob Parry informed the Council that he had been advised that the County Council, at present, had no money for a pavement..
(vi) Goryrru. Y Clerc wedi anfon cwyn at yr Heddlu. Ymateb oddi wrth Go Safe yn cadarnhau eu bod yn gweithredu ar y safle	**(vi) Over-speeding.** The Clerk had sent a complaint to the Police. Reply from Go Safe stating that they have a love Go Safe at the location.
(vii) Cais Cynllunio - datblygiad ar dir hen safle moch. Dim ymateb i'n gwrthwynebiad oddi wrth y Cyngor Sir. Llythyr o ddiolch am gefnogaeth y Cyngor Cymuned oddi wrth David a Ruth Williams.	**(vii) Planning application – development at the old piggery site.** No reply from the County Council following our opposition to the application. Letter of thanks from David and Ruth Williams for the Community Council's support.
(iv) Hysbysebu Swydd Clerc i'r Cyngor Cymuned. Ni dderbyniwyd yr un cais, a phenderfynwyd ail hysbysebu gyda'r dyddiad cau 5/11/2021.	**(vi) Advertise post of Clerk to the Community Council.** No applications received. It was decided to re-advertise with a closing date of 5/11/2021.
5. Gohebiaeth:	**5. Correspondence:**
(a) Cyngor Sir Ynys Môn	**(a) Isle of Anglesey County Council**
(i) Holiadur Llesiant Ynys Môn. Dyddiad cau ar gyfer ymatebion	**(i) Anglesey Well-being Questionnaire.** Closing date for

11/10/21. Y Clerc wedi anfon copi at y Cynghorwyr i ymateb pe dymunent. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	responses 11/10/21. Copy sent to Councillors to respond if they so wished. Discussed and accepted for information.
(ii) Ymgynghoriad : Datganiad draft ar Bolisi Gamblo 2022-2025. (Copi wedi'i anfon at y Cynghorwyr ar 3/10/2021). Ymatebion erbyn 31/10/2021. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	**(ii) Consultation: Draft Statement of Gambling Policy 2022-2025.** (Copy sent to the Councillors 3/10/2021). Responses by 31/10/2021. Discussed and accepted for information.
(iii) Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. Adolygiad Rhent Maes Chwarae Plant. Y rhent yn daladwy o'r 19/6/2019 yw £83.94 y flwyddyn tan y dyddiad adolygu nesaf, sef 19/6/2022. Trafodwyd a derbyniwyd y rhent newydd.	**(iii) Highways, Waste and Property Services.** Rent Review Children's Playing Area. Rent payable from 19/6/2019 is £83.94 per annum until the next review on 19/6/2022. Discussed and the new rent accepted.
(iv) Adran Cynllunio. (i) Rhybudd penderfyniad - Cais rhif HHP2021/235. Caniatâd i gais llawn am fynediad newydd i gerbydau yn Parc.	**(v) Planning Dept.** (i) Decision Notice - Applic.No.HHP/2021/235. Permission granted to full application for proposed new vehicular access at Parc..
(b) UN LLAIS CYMRU.	**(b) ONE VOICE WALES.**
(i) Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Uchafbwyntiau Gwybodaeth, Medi. Y Clerc wedi anfon at y Cynghorwyr 9/9/2021. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	**(i) Ageing Well in Wales.** . September, Information Highlights. The Clerk had forwarded to Councillors on 9/9/2021. Discussed and accepted for information.
(ii) Arolwg Croesawu'r cyhoedd i gefn gwlad a'r arfordir. Y Clerc wedi anfon copi ymlaen at y Cynghorwyr 22/9/2021. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	**(ii) Survey - Welcoming the public to the countryside and coast.** The Clerk had forwarded a copy to Councillors 22/9/2021. Discussed and accepted for information.
(iii) Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Chwefror 2022. Y Clerc wedi anfon copi at y Cynghorwyr 1/10/2021. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	**(iii) Independent Remuneration Panel for Wales drafrt Annual Report Consultation.** The Clerk sent a copy to the Councillors 1/10/2021. Discussed and accepted for information.
(iv) Ymgynghoriad Agored ar Ganllawiau Arfaethedig yn ymwneud ag "Egwyddorion Gweinyddu Da" a "Rheoli Cofnodion yn Dda". Y Clerc	**(iv) Open Consultation on Proposed Guidance on "Principles of Good Administration" and "Good Records**

wedi anfon copi at y Cynghorwyr 22/9/2021. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth. **(v) Ymgynghoriad ar ddefnydd peryglu cychod dwr hamdden a phersonol (yn enwedig Jet Skis).** Y Clerc wedi anfon copi at y Cynghorwyr 22/9/2021. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth. **(vi) Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir Medi/Hydref 2021.** Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.. **(c) HOWARD HUWS – CYLCH YR IAITH.** Gwrthwynebu ceisiadau cynllunio ar sail perygl i'r iaith Gymraeg. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth	**Management".** The Clerk sent a copy to the Councillors 22/9/2021. Discussed and accepted for information. **(v) Consultation on the dangerous use of recreational and personal watercraft (especially Jet Skis).** The Clerk sent a copy to the Councillors 22/9/2021. Discussed and accepted for information. **(vi) Remote training sessions taking place in September/October.** Discussed and accepted for information. **(c) HOWARD HUWS – LANGUAGE GROUP.** Opposing planning applications on the basis of risk to the Welsh language. Discussed and accepted for information.
6.. Materion ariannol	**6.. Financial matters**
(a) Taliadau'n ddyledus: **(i) Cymen £176.40** cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod 6/9/2021. **(ii) Calon Cymru. £1448.40** Defib. **(iii) Cyngor Sir Ynys Môn. £289.17** rhent Cae peldroed 12/10/2021 - 11/10/2022. **(iv) E.on. ££71.08** - trydan i'r cloc wedi'i dalu drwy ddebyd uniongyrchol. Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r anfonebau uchod. **(b) Archwiliwr Allanol.** Heb orffen yr archwiliadau. Hysbys i'w roi ar y wefan ac ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned.. **(c) Adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor.** Derbyniwyd adroddiadau'r Clerc sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal costau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.	**(a) Payments due:** **(i) Cymen £176.40** interpreting at meeting 6/9//2021. **(ii) Welsh Hearts. £1448.40** Defib. **(iii) Isle of Anglesey County Council £289.17** rent football field 12/10/2021 – 11/10/2022 **(iv) E.on £71.08** electricity supply to the clock. Paid by direct debit. The Clerk was given permission to pay the above invoices. **(b) External Auditor.** Not completed the audits. Notice to display on the website and on the Council's noticeboard. **(c) Review of Council's Financial position.** The Clerk's reports were accepted and they confirm that there is sufficient income and funds to maintain costs till the end of the financial year.
7. Unrhyw fater arall.	**7. Any other business.**
(a) Sul y Coffa. I'w gynnal 14/11/2021 am 10.50am o gwmpas y cloc yn unig o ganlyniad i gyfyngiadau Covid 19. Y Clerc i drefnu 6 torch pabi fel arfer, a rhoddwyd caniatâd iddi dalu amdanynt ar	**(a) Remembrance Sunday.** To be held on 14/11/2021 at 10.50am at the Memorial Clock only due to Covid 19 restrictions. The Clerk to order 6 wreaths as per usual and permission to

eu derbyn. Penderfynwyd anfon gwahoddiad i gynrychiolydd o RAF Fali ac o Ysgol y Fridd.	pay for them on delivery. It was decided to invite a representative from RAF Valley and from Ysgol y Ffridd to attend.
8. Pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf. 8/11/2021.	**8. Fix a date for the next meeting. 8/11/2021.**

Daeth y cyfarfod i ben am 8pm. **The meeting concluded at 8pm.**